**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**
**CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 RHAGFYR 2015 YN NHŶ HASTINGS.**

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. David Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs. Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr. Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr. Tom Jenkins (Swyddog Arolygon); Mr. Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon); Mrs. Catherine Thomas (Cynorthwydd Arolygon)

**Amser Dechrau:** 9:30
**Amser Gorffen:** 14:10

**Ymddiheuriadau:** Ymddiheurodd Mrs. Julie May a Mr. Daniel Mosley am nad oeddent yn gallu mynychu'r Cyfarfod.

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1. Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod am 11am gyda Swyddogion yr Is-adran Noddi ac y byddai cyfarfod y Comisiwn yn ailddechrau yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

2.2. Adroddodd y Cadeirydd fod aelodau'r Comisiwn wedi mynychu'r cyfarfod Rhwng y Comisiynau yn Llundain ym mis Tachwedd, a bod y cyfarfod yn un diddorol am ei fod wedi tynnu sylw at sefyllfaoedd gwaith gwahanol bob un o'r Comisiynau.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2015

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2015 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Rhagfyr gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 2) Arolygon Cymunedol – Roedd Cyfarwyddiadau Desg wedi'u hadolygu a'u diweddaru, fodd bynnag, nodwyd bod y rhain yn ddogfen fyw ac y byddai newidiadau'n cael eu gwneud fel y bo'r gofyn. **Matt Redmond**

- (Mater 8) Gwasanaethau Cyfreithiol – Mae cytundeb wedi'i lofnodi i'w dderbyn yn y Flwyddyn Newydd. **Rachel Williams**
- (Mater 11) Safonau'r Gymraeg – Nid oedd y Comisiwn yn disgwyl derbyn y rheoliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg tan ganol 2016. **Steve Halsall**
- (Mater 12) Adeilad - Mae'r Comisiwn wedi gofyn am gopi o'r Brydles gan Ethical Property Ltd. **Rachel Williams**
- (Mater 15) Arolwg Ordnans – Teithio a Chynhaliaeth ar gyfer ymweliad 11 Chwefror i'w trefnu. **Tom Jenkins**

## 5. Papur Trafod Prosesau Arolygon

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 8 Rhagfyr 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Roedd yr adroddiad yn darparu rhai dulliau amgen a allai arbed amser i'r broses arolygon; roedd hefyd yn tynnu sylw at fuddion a risgiau'r awgrymiadau hynny.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn y Prosesau Allanol a **Chytunodd** i ystyried yr awgrymiadau canlynol:

- Dim adroddiadau printiedig
- Testun cyfyngedig mewn adroddiadau
- Dosbarthiad electronig yn unig – byddai angen ymchwilio ymhellach i hyn

5.3. **Cytunodd** y Comisiwn fod y risgiau'n rhy uchel i ystyried ymgorffori'r awgrymiadau canlynol yn y rhaglen arolygon:

- Dim Comisiynydd Arweiniol
- Dim mapiau mewn adroddiadau
- Dim Uwchgynhadledd Arolygon Llywodraeth Leol
- Cynrychiolaethau Llafar
- Cyhoeddi yn Saesneg yn gyntaf

5.4. Ystyriodd y Comisiwn y Prosesau Mewnol a **Chytunodd i** ystyried yr awgrym canlynol:

- Cyfarfodydd pwrpasol (rhybudd byr) ar gyfer cynlluniau

5.5. **Cytunodd** y Comisiwn fod y risgiau'n rhy uchel i ystyried ymgorffori'r awgrymiadau canlynol yn y rhaglen arolygon:

- Penderfyniadau cynlluniau yn cael eu gwneud y tu allan i gyfarfodydd y Comisiwn
- Dim proses sicrhau ansawdd
- Ni fyddai dibynnu ar oramser i Staff yn cael ei gynnwys fel ffactor yn y rhaglen

5.6. **Cytunodd** y Comisiwn fod penderfynu ar y defnydd o oramser ar gyfer staff, a nifer y swyddogion arolygon angenrheidiol i gwblhau'r arolwg, yn faterion i reolwyr eu hystyried ac nid y Comisiwn.

5.7. Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â chyfnodau ymgynghori'r arolwg a **Chytunodd** y Comisiwn y gallai ystyried defnyddio ymgynghoriad chwe wythnos yn unig.

5.8. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn. **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

**6. Adroddiad Bil Llywodraeth Leol (Cymru)**

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 8 Rhagfyr 2015 gan y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr.

6.2. Fe wnaeth y Comisiwn drafod a chydnabod y materion gyda'r Bil.

6.3. **Penderfynwyd** trefnu cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ar nifer o feysydd cyn drafftio ymateb. **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

**7. Ffiniau Tua'r Môr**

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Tachwedd 2015 gan y Prif Weithredwr.

7.2. Gwahoddwyd y Comisiwn i ystyried y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd ynglŷn â'r pŵer i arolygu ffin unigol tua'r môr a allai ymestyn dros fwy nag un ardal awdurdod lleol.

7.3. **Nodwyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn, a chyngor y Cwnsler fod pwerau gan y Comisiwn i arolygu ffiniau tua'r môr fel bo'r gofyn.

**8. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Rhagfyr 2015 gan y Prif Weithredwr.

8.2. Gwahoddwyd y Comisiwn i ystyried y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a oedd wedi'i gytuno rhwng Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Ffiniau i Gymru a CFfDLC cyn ei gyhoeddi.

8.3. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a **Chytunodd** y gallai gael ei gyhoeddi yn awr.

**9. Gwneud Gorchymyn Arolygon Cymunedol**

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 8 Rhagfyr 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

9.2. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth i'r drafft weithdrefn gwneud Gorchymyn a **Chytunodd** y dylai'r broses ddrafft gael ei hanfon at Lywodraeth Cymru a Gwasanaethau Cyfreithiol y Llywodraeth i gael eu barnau.

9.3. Bydd dogfen ffurfiol o'r broses gwneud Gorchmynion yn cael ei chyflwyno

mewn cyfarfod o’r Comisiwn yn y dyfodol. **Gweithredu: Dirprwy Brif Weithredwr**

## 10. Rheoli Risg

10.1 Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 3 Rhagfyr 2015 gan y Rheolwr Cyllid. Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi gwneud dau awgrym ar gyfer newidiadau i Bolisi Rheoli Risg y Comisiwn yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, sef fel a ganlyn:

- Y dylai’r Comisiwn ystyried mabwysiadu’r arfer o ffurfio archwaethau risg ar wahân ar gyfer prosiectau unigol a allai fod yn wahanol i archwaeth risg gyffredinol y Comisiwn; ac
- Y dylai’r Comisiwn gynnwys yn ei Bolisi Rheoli Risg yr arfer o uwch reolwyr yn cynhyrchu cofnod o’u rhesymau y tu ôl i unrhyw newidiadau a wnânt i’r Gofrestr Risgiau Gweithredol.

10.2 **Cytunwyd** mabwysiadu’r newidiadau a awgrymwyd i’r polisi Rheoli Risg ac y byddai polisi diwygiedig yn cael ei gyflwyno i’r cyfarfod nesaf. **Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 26 Ionawr 2016

10.3 Fe wnaeth y Comisiwn nodi a **Derbyn** yr adroddiad gan y Rheolwr Cyllid ac roedd o’r farn fod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn adlewyrchu’n gywir y risgiau presennol i amcanion y Comisiwn. **Cytunwyd** nad oedd unrhyw newidiadau i’r gofrestr yn ofynnol.

## 11. Adroddiad Cyllideb

11.1 Ystyriodd y Comisiwn yr adroddiad a ddrafftiwyd gan y Rheolwr Cyllid a nododd y newidiadau mân arfaethedig i’r categorïau cyllideb a’r amcangyfrif o’r tanwariant ar gyfer diwedd y flwyddyn. Adroddwyd bod peth ansicrwydd o hyd gyda rhai meysydd gwariant disgwyliedig mewn perthynas â chyngor cyfreithiol ar gyfer ffiniau tua’r môr a gwneud gorchmynion arolygon cymunedol. Fodd bynnag, dylai fod modd o hyd ildio £25,000 o Gymorth Grant yn ôl i Lywodraeth Cymru yn esmwyth.

11.2 **Cytunwyd** y byddai llythyr yn cael ei ddrafftio ar gyfer y Prif Weithredwr i Lywodraeth Cymri yn eu hysbysu o benderfyniad y Comisiwn i ildio £25,000 ac y byddai’r gyllideb yn cael ei hail-lunio yn briodol. **Gweithredu:** Rheolwr Cyllid. **Erbyn:** 26 Ionawr 2016

## 12. Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 24 Tachwedd 2015

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 2 Rhagfyr 2015 gan y Rheolwr Cyllid ynglŷn â chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2015, a’r prif bwyntiau a phenderfyniadau yn codi o’r cyfarfod hwnnw. **Penderfynodd** y Comisiwn i nodi’r adroddiad yn ffurfiol.

## 13. Ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon.

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Rhagfyr 2015 gan y Rheolwr Cymorth Busnes. Roedd y papur yn amlinellu galwad Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol am dystiolaeth gan gyrff cyhoeddus ar bwerau arfaethedig i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Nodwyd bod y Pwyllgor yn bwriadu cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol y dylai'r Ombwdsmon benderfynu sut gellid derbyn cwynion, gan gynnwys cwynion llafar, ond awgrymodd fesurau diogelwch pe bai'r trywydd hwnnw'n cael ei ddilyn.

13.2. Er y tebygolrwydd y gallai ymglymiad yr Ombwdsmon mewn cwynion ynglŷn â'r Comisiwn gynyddu, roedd y Comisiwn yn parhau o'r farn na ddylid derbyn cwynion llafar, ond yn hytrach y dylai pob cwyn gael ei gwneud yn ysgrifenedig. **Cytunwyd** cadw at ymateb gwreiddiol y Comisiwn a'i ailadrodd i'r Pwyllgor. **Gweithredu: Y Rheolwr Cymorth Busnes** i ailgyflwyno'r ymateb i Weinidogion Cymru.

**14. Cynllunio'r Gweithlu a Symudedd Staff**

14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 7 Rhagfyr 2015 gan y Rheolwr Cymorth Busnes ar sefydlu gwefan y rhaglen Cyfnewid Pobl Cymru a'r broses i hyrwyddo swyddi gwag ledled Cymru.

14.2. Ystyriwyd y byddai'r cynnig yn gosod cyfyngiadau ar y Comisiwn o ran recriwtio staff a bod ansicrwydd ynglŷn ag atebolrwydd posibl yn y dyfodol mewn perthynas â thaliadau diswyddo.

14.3. **Nodwyd** yr Adroddiad. Roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn bwysig parhau yn gysylltiedig yn y broses ac i gynnal presenoldeb yn yr ymgynghoriad. **Cytunwyd** anfon yr ymatebion arfaethedig ymlaen at Lywodraeth Cymru. **Gweithredu: Y Rheolwr Cymorth Busnes.**

**15. Cynnydd arolygon.**

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Rhagfyr 2015 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

**Arolygon Etholiadol**.

15.2. Adroddwyd bod cynigion ar gyfer **Sir Gaerfyrddin, Ceredigion**, **Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Powys** a **Thorfaen** wedi'u cytuno, gyda Gorchmynion i ddod ym mis Ionawr 2016.

15.3. Gan fod yr Arolwg Cymunedol o **Sir Fynwy** wedi'i ohirio, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y Cynigion Etholiadol Terfynol a gyflwynwyd iddynt ym mis Chwefror 2011 mewn perthynas â Sir Fynwy. Rhagdybir bod y cynigion terfynol ar gyfer **Sir Benfro** a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2014 wedi'u derbyn gan y Gweinidog hefyd.

15.4. Mae'r Arolygon o **Ben-y-bont ar Ogwr** ac **Abertawe** wedi'u gohirio o ganlyniad i atal Rhaglen Arolygon Etholiadol 2014.

**Arolygon Cymunedol**.

15.5. Cyhoeddwyd arolygon **Rhondda Cynon Taf** a **Sir y Fflint** ar 9 Gorffennaf 2015 a 7 Hydref 2015, yn y drefn honno.  Roeddent yn disgwyl am benderfyniadau'r Gweinidogion.

15.6. Cafodd Adroddiad Cynigion Draft Terfynol Dinas a Sir **Caerdydd** ei ystyried yng nghyfarfod diwethaf y Comisiwn ac roedd yr Adroddiad yn destun proses sicrhau ansawdd ar hyn o bryd.

15.7. Cyhoeddwyd Adroddiad Cynigion Drafft Cyngor Bwrdeistref Sirol **Castell-nedd Port Talbot** ar 26 Tachwedd 2015 a diwedd y cyfnod cynrychiolaethau yw 7 Ionawr 2016.

15.8. Arolwg Cyngor Sir **Caerfyrddin** o'r ffin rhwng Cymunedau Llanelli Gwledig a Llangennech yw'r Arolwg Cymunedol cyntaf i'w gynnal o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac roedd papur y Comisiwn ar y broses ar gyfer gwneud Gorchymyn yn y Comisiwn wedi'i gyflwyno'n gynharach yn y cyfarfod hwn.
Cyhoeddodd y Cyngor ei adroddiad argymhellion terfynol ar 11 Tachwedd ac mae'r cyfnod chwe wythnos cyn y gall y Comisiwn wneud Gorchymyn yn dod i ben ar 23 Rhagfyr 2015.

15.9. Cychwynnodd Cyngor **Sir Ddinbych** arolwg yn gyfan gwbl o fewn Prestatyn gyda Chynigion Drafft yn cael eu cyhoeddi ar 30 Hydref 2015, ac ymgynghoriad yn dod i ben ar 11 Rhagfyr 2015 - darparwyd ymateb gan y Comisiwn i'r ymgynghoriad ar 3 Rhagfyr 2015.  Oni bai eu bod yn gwneud newid i ffin Cymuned Prestatyn, ni fydd y Comisiwn yn gysylltiedig yn ffurfiol â'r broses, er ei fod yn ymgynghorai gorfodol.

15.10. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn.

## 16. Calendr Digwyddiadau

16.1. **Nodwyd** y calendr.

## 17. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

17.1. Nid oedd unrhyw fusnes perthnasol arall.

## 18. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:  Dydd Mawrth 26 Ionawr 2016